# Astudiaeth Achos

## Lleoliad Gwaith - Cyfrifyddu Carbon ar gyfer Data Teithio - pennu’r data sylfaenol ar gyfer cynllunio carbon niwtral

### Pwyntiau Allweddol

- Roedd y prosiect Real World hwn yn caniatáu i fyfyrwyr wneud cais am un o bum tîm lleoliad gwaith yn gweithio gyda’r Rheolwr Ymgysylltu Cynaliadwyedd a'r Peiriannydd Ynni a'r Amgylchedd.
- Mae materion cynaliadwyedd yn nglwm a chyfyngiadau ac anawsterau y byddai'n rhaid i'r myfyrwyr eu goresgyn, gan ddangos i'r myfyrwyr y cyd-destun y mae'n rhaid i gynaliadwyedd ymarfer ynddo.
- Archwiliwyd yr angen am graffu, yn ogystal ag ystyriaethau economaidd ac amgylcheddol, wrth ddarparu cyngor cynaliadwyedd cyffredinol yng nghyd-destun safleoedd Met Caerdydd.
- Mae 51 maes data i’w gasglu, cyfrifo a darparu trywydd archwilio llawn.

### Pwy?

Lleoliad gwaith Real World, lefel 5, ar gyfer myfyrwyr BA Busnes a Rheoli. Dyluniwyd y prosiectau ar gyfer myfyrwyr ar y llwybrau Cynaliadwyedd, Marchnata a Chyllid, gyda'r cyfle i gynnal ymchwil, dadansoddi'r materion a nodwyd a darparu atebion realistig gyda'r potensial i ddylanwadu'n uniongyrchol ar fentrau cynaliadwyedd ar y Campws. Swyddogaeth y grŵp yma oedd casglu, trefnu, trosi a chreu trywydd archwilio ar gyfer data enillion data HESA/EMR ar gyfer 2019/20 erbyn Ebrill 2021.

### Pam?

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cydnabod pwysigrwydd y rôl sydd ganddi i'w chwarae wrth reoli'r amgylchedd yn ei hystâd ac wrth hyrwyddo egwyddorion cynaliadwyedd ar draws yr holl weithgareddau, gan gynnwys addysgu ac ymchwil. Mae'r Brifysgol yn rheoli ei risgiau amgylcheddol mewn modd cynaliadwy trwy gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a mabwysiadu arfer gorau lle bo hynny'n briodol. Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cydnabod diffiniad eang o gynaliadwyedd, yn seiliedig ar gymryd rhan mewn datblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol, heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'r Brifysgol yn edrych yn barhaus ar sut y gall wella cynaliadwyedd a lleihau ei hôl troed carbon. Rhoddodd y lleoliad gyfle i grwpiau o fyfyrwyr weithio ar y cyd (yn rhithiol / ar-lein) ar ystod o brosiectau o fewn y maes cynaliadwyedd mewn perthynas â'r amgylchedd yr oeddent yn gyfarwydd ag ef. Mae cipio data ar gyfer Teithio wedi profi’n anodd ei leoli mewn blynyddoedd blaenorol, roedd y ffaith bod y grŵp lleoliad gwaith angen y gwybodaeth yn cynorthwyo’r lleoli a’r adolygu ar gyfer blynyddoedd i ddod.

### Sut?

Ar ôl gwneud cais am swydd yn eu pwnc o ddewis, cwblhaodd chwech myfyrwyr ymchwil ar casglu data mewnol ac adrodd i derfyn amser allanol o Ebrill 2021. Oherwydd Covid-19 cwblhawyd y lleoliad gwaith wyth wythnos ar Microsoft Teams, gyda chyfarfodydd wythnosol / rheolaidd i ddangos syniadau a chynnydd ar y tasgau a ddyrannwyd. Elfen olaf y lleoliad oedd cyflwyno cyflwyniad llafar ac adroddiad byr ar ganfyddiadau'r grŵp.

### Pwyntiau Allweddol

- Anogodd addysgeg ddilys, yn seiliedig ar brosiectau ac yn canolbwyntio ar y dysgwr ymgysylltiad uniongyrchol gan fyfyrwyr i ystod o faterion cynaliadwyedd byd go iawn sy’n wynebu Met Caerdydd a’i myfyrwyr.
- Bu myfyrwyr yn gweithio gyda chleientiaid go iawn a grwpiau targedu defnyddwyr i greu datrysiadau go iawn i faterion go iawn sy’n cael eu rhoi ar waith gan y sefydliad.

### Canlyniadau Dysgu

”Mae gweithio ar brosiect yn y byd go iawn wedi rhoi mewnwelediad a phersbectif i mi a fy helpu i ddysgu sut mae gweithio fel rhan o dîm. Dwi wedi gwerthfawrogi cael ein rheolwr llinell a sylwi bod perthynas da gyda’ch mentor yn allweddol i amgylchedd gwaith iach. Dysgais fod cynaladwyedd yn fwy nag ailgylchu a defnyddio gwelltyn papur. Mewn gwirionedd mae cynaladwyedd am greu effaith mor fawr y gall cenedlaethau’r dyfodol profi byd iach a chynaliadwy. Nid rhywbeth i’w wneud o bryd i’w gilydd dylai cynaladwyedd fod ond ffordd o fyw.”
Loay Al Shuaili

*Chwefror 2021 - Mai 2021*

### Canlyniadau

Anogodd Prosiect Real World myfyrwyr i ystyried y rôl y gallant hwy a'u disgyblaeth ei chwarae wrth annog a dylanwadu ar newid ar gasglu data gynaliadwyedd. Trwy ddatblygu a hyrwyddo datrysiadau i broblemau dilys yn y byd go iawn a oedd â'r potensial i'w gweithredu ac felly'n cael effaith barhaol, roedd yn amlwg bod mwyafrif llethol o’r myfyrwyr wedi buddsoddi'n emosiynol yn allbynnau eu prosiect ac yn unol â hynny wedi datblygu ymdeimlad cryf o berchnogaeth a gwerth ynddo eu datrysiadau arfaethedig - tystiolaeth o ddysgu trwy brofiad effeithiol.